De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

# EICH HEDDLU ▪ EICH ARIAN

## Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd Tuag At Dde Cymru Mwy Diogel

De Cymru yw un o'r ardaloedd mwyaf diogel i fyw a gweithio ynddi yn y DU ond gwna'r pwysau dwys ar blismona a gwasanaethau eraill hi'n ofynnol i ystyried yn ofalus iawn pa lefel o dreth cyngor sy'n angenrheidiol er mwyn cynorthwyo ein cymunedau a mynd i'r afael â bygythiadau trosedd sy'n dod i'r amlwg.

Y canlyniad yw cynnydd ym mhraesept yr Heddlu - ond bydd deiliaid tai De Cymru yn parhau i dalu'r hyn sydd ymysg y costau plismona isaf yng Nghymru gyda chynnydd o £10.39 y flwyddyn (2.8c y diwrnod) ar gyfer eiddo Band D. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru wedi pennu'r dreth gyngor ar £218.24, gan gyfrannu £105m tuag at gyllideb o £262.8m ar gyfer gwasanaeth heddlu 24 awr, saith diwrnod yr wythnos.

Roedd setliad yr heddlu yn waeth na'r disgwyl. Cafodd £2.2m ychwanegol ei dorri o Grant yr Heddlu. Ac o ganlyniad uniongyrchol i bolisi'r Llywodraeth, mae'n rhaid i ni ddod o hyd i £1m ar gyfer y Lefi Prentisiaeth newydd. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi torri £2.1m oddi ar ein grant cyfalaf ers 2011 ac hefyd mae effaith chwyddiant. Bydd y praesept ond yn mynd i'r afael â rhan o'r bwlch hwn, ynghyd ag arbedion effeithlonrwydd eleni o £3.1m ar ben y £45m o arbedion a gyflawnwyd yn llwyddianus ers 2010.

Nod Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu 2017-21 yw diogelu ein pobl a gweithio hyd yn oed yn agosach gyda phobl leol. Lluniwyd y Cynllun drwy gydweithio agos â'r Prif Gwnstabl ac mae'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer plismona yn Ne Cymru. Mae'n rhoi pwyslais clir ar ymyriadau cynnar a gweithredu prydlon, cadarnhaol. Mae'r Cynllun yn nodi sut y bydd Heddlu De Cymru yn ymateb i fygythiadau cynyddol megis trosedd ar-lein a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant.

Er gwaethaf yr heriau ariannol, rydym wedi gwella perfformiad yn gyson wrth i ni weithio tuag gael ein hystyried fel yr heddlu gorau am wrando ar anghenion ein holl gymunedau yn Ne Cymru a'u deall. Cafodd ein perfformiad ei gydnabod yn allanol:

- Y Swyddfa Gartref – "Gan De Cymru oedd y presenoldeb gorau ar draws y 43 o gwnstabliaethau."
- ACEM – Rhagorol am "ddeall ein cymunedau ac ymgysylltu â hwy" ac am "ddeall y galw presennol a'r galw yn y dyfodol."
- Y gorau drwy'r wlad am gyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer Trais gydag Anaf a Bwrglera Domestig.

Ceir manylion llawn am y Cynllun a'n Perfformiad yn:

**www.comisiynyddheddluathroseddu.cymru**

# YOUR POLICE ▪ YOUR MONEY

## Achieving More Together Towards a Safer South Wales

South Wales is one of the safest areas to live and work in the UK but the intense pressure on policing and other services makes it necessary to give very careful consideration to the level of council tax needed to support our communities and address emerging crime threats.

The result is an increase in the Police precept - but householders in South Wales will continue to pay amongst the lowest costs for policing in Wales with an increase of £10.39 a year (2.8p a day) for Band D properties. The Police and Crime Commissioner for South Wales, has set the council tax at £218.24, contributing £105m towards the £262.8m budget for a 24 hour, seven day a week police service.

The police settlement was worse than we had feared. Police Grant has been cut by a further £2.2m. And as a direct result of Government policy, we have to find £1m for the new Apprenticeship Levy. The Government has also cut our capital grant by £2.1m since 2011 and there is the impact of inflation. The precept will address only part of this gap, along with efficiency savings this year of £3.1m on top of the £45m of savings successfully delivered since 2010.

The Police and Crime Reduction Plan 2017-21 is about protecting our people and working ever more closely with local communities. The Plan has been produced in close co-operation with the Chief Constable and sets out our vision for policing in South Wales. It provides a clear emphasis on early intervention and prompt, positive action. The Plan sets out how South Wales Police will respond to growing threats such as internet enabled crime and child sexual exploitation.

Despite the financial challenges, we have consistently improved performance as we work towards being the best at listening and understanding the needs of all our communities in South Wales. Our performance has been externally recognised:

- The Home Office – "South Wales had the best visibility across 43 constabularies."
- HMIC – Outstanding for "understanding and engaging with our communities" and "understanding of current and future demand."
- 1st in the country for positive outcome rates for Violence with Injury and Domestic Burglary.

Full details of the Plan and our Performance can be found at:

**www.southwalescommissioner.wales**

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

| BETH Y BYDDWCH YN EI DALU BOB BLWYDDYN: | | | | | | WHAT YOU WILL PAY PER YEAR: | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Band A:** | £145.50 | **Band C:** | £193.99 | **Band E:** | £266.74 | **Band G:** | £363.74 | **Band I:** | £509.24 |
| **Band B:** | £169.75 | **Band D:** | £218.24 | **Band F:** | £315.24 | **Band H:** | £436.49 | | |

| CYLLIDEB REFENIW | 2017-18 £000's | 2016-17 £000's | REVENUE BUDGET |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Gwariant Gros | 295,379 | 285,743 | Total Gross Expenditure |
| Incwm | -9,203 | -6,691 | Income |
| Grantiau Eraill (Y Swyddfa Gartref) | -23,387 | -20,134 | Other Grants (Home Office) |
| Defnyddio Cronfeydd | 0 | 0 | Use of Reserves |
| **Gofyniad y Gyllideb** | **262,789** | **258,918** | **Budget Requirement** |
| Grant yr Heddlu (Y Swyddfa Gartref) | -84,066 | -87,463 | Police Grant (Home Office) |
| Grant Cymorth Refeniw (Llywodraeth Cymru) | -51,050 | -51,656 | Revenue Support Grant (Welsh Government) |
| Cyfraddau Annomestig (Llywodraeth Cymru) | -22,290 | -20,521 | Non-Domestic Rates (Welsh Government) |
| **Praesept y Dreth Gyngor** | **105,383** | **99,278** | **Council Tax Precept** |
| **Y Dreth Gyngor ar Eiddo Band D** | **218.24** | **207.85** | **Council Tax Band D property** |
| **Asesiad Cyfanswm Gwariant Sefydlog gan y Llywodraeth ar gyfer y Corff Plismona Lleol** | **206,252** | **207,345** | **Total Standing Spending Assessment by Government for the Local Policing Body** |

Cyllideb y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2017-18 yw £23.3 miliwn. Daw'r cyllid o grant cyfalaf y Swyddfa Gartref, £1 miliwn, a benthyca allanol o £1.7 miliwn, gan olygu bod angen cyllid mewnol neu gyfalaf wrth gefn o £20.6 miliwn.

Ym mis Mawrth 2016, roedd £9.3 miliwn o gyfalaf wrth gefn, sef y lefel isaf a argymhellir.

## Cysylltu â'r Comisiynydd

**Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am gynrychioli'r gymuned a gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i ddarparu gwasanaeth yr heddlu effeithiol yn Ne Cymru.**

Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd, mewn sawl ffordd:

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu,
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
Ffôn: 01656 869366
E-bost: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
Gwefan: www.comisiynyddheddluathroseddu.cymru
Twitter: @commissionersw

## Cysylltu â Heddlu De Cymru

Mewn argyfwng, dylech bob amser ffonio 999. Os nad yw'n argyfwng, ffoniwch 101. Gall unrhyw un sydd â nam ar ei glyw neu ei leferydd gysylltu â ni drwy ein system minicom ar 01656 656980.

Pencadlys Heddlu De Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
E-bost: headquarters@south-wales.pnn.police.uk
Gwefan: www.heddlu-de-cymru.police.uk
Twitter: @swpolice

## Unrhyw gwestiynau?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y wybodaeth yn y daflen hon, ffoniwch 01656 869299.

The Capital programme budget for 2017-18 is £23.3m. Funding is made available from Home Office capital grant £1m and external borrowing of £1.7m, meaning internal financing or capital reserves of £20.6m are required.

As at March 2016, the general reserve held was £9.3m, which is the recommended minimum level.

## Contact the Commissioner

**The Commissioner is responsible for representing the community, and working with the Chief Constable to deliver an effective police service in South Wales.**

You can contact the Commissioner in a number of ways:

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
Phone: 01656 869366
Email: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
Website: www.southwalescommissioner.wales
Twitter: @commissionersw

## Contact South Wales Police

In an emergency, always call 999. If it is not an emergency, please dial 101. Those with hearing or speech impairment can contact us via our minicom system on 01656 656980.

South Wales Police Headquarters, Bridgend, CF31 3SU
Email: headquarters@south-wales.pnn.police.uk
Website: www.south-wales.police.uk
Twitter: @swpolice

## Any questions?

If you have any financial questions about the information in this leaflet, please contact 01656 869299.

Cyhoeddwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru. Published by Police and Crime Commissioner for South Wales.
Dyluniwyd ac Argraffwyd gan Adran Argraffu Heddlu De Cymru. Designed and Printed by South Wales Police Print Department.
Print Ref: 2310